PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 42 | Hydref 16, 2025 | 50c.

## Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

# Oedfa o fawl ar yr Alltwen

Y gantores werin a'r delynores, Gwenan Gibbard oedd arweinydd Sul y Cyfundeb eleni ar 28 Medi. Cyfaddefodd nad oedd Cwm Tawe yn gyfarwydd iddi, er iddi ymweld â Phontardawe flynyddoedd maith yn ôl gyda chyfrol Gomer M. Roberts *Crwydro Blaenau Morgannwg* yn gwmni iddi. Cofiai, yn glir, gweld cartref Gwenallt ar sgwâr y dref.

### Telynores

Cyflwynwyd y rhannau arweiniol gan Rachel Davies a'r Parchg Gareth Morgan Jones, gweinidog Capel yr Alltwen sy'n dathlu 60 mlynedd yn y weinidogaeth ym mis Medi, eleni. Croesawyd y gynulleidfa hardd i'r oedfa ac wedi cyflwyno Gwenan gan y Parchg Rhys Locke, is-gadeirydd y Gyfundeb, rhoddwyd y llwyfan iddi rannu emynau cyfarwydd gyda'u tonau anghyfarwydd. Mae Gwenan yn un o artistiaid gwerin amlycaf Cymru ac i chi sy'n dilyn cerddoriaeth, yna mae'n enw a llais cyfarwydd. Mae'n un o'r ychydig berfformwyr sy'n arbenigo yn yr hen grefft o ganu cerdd dant hunan-gyfeiliant. Mae ei halbwm diweddaraf, 'Hen Ganeuon Newydd', yn canolbwyntio ar ganeuon gwerin ei hardal enedigol, Llŷn ac Eifionydd, ac yn cyd-fynd â'i hymchwil doethurol diweddar yn y maes hwnnw.



### Cefndir

Wedi graddio mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru Bangor a chwblhau gradd meistr yno mewn perfformio ac ymchwil ym maes cerddoriaeth Cymru, aeth ymlaen i astudio'r delyn yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain, ac yna dychwelodd i Bwllheli. Mae'n gweithio gyda chwmni recordio Sain, yn arwain Côr yr Heli ac yn perfformio'n helaeth fel artist unigol a gyda'r grŵp gwerin 'Pedair' sydd mor boblogaidd ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Merch i'r diweddar Barchg Hedley Gibbard yw Gwenan ac mae'n aelod yng nghapel Penlan, Pwllheli.

### O'r Seren i Stella

Dechreuodd ei chyflwyniad gydag emyn i blant o *Ganiedydd yr Ifanc*, sef 'Pe bawn i yn seren fach loyw lân' a osododd naws hyfryd. Yna canodd 'Arglwydd Iesu dysg i'm

*parhad ar dudalen 2*

## Cyngor Hydref yr Undeb

Cynhaliwyd Cyngor Hydref Undeb yr Annibynwyr am ddau ddiwrnod yn Llety Parc, Aberystwyth (10-11 Hydref). Daeth cynrychiolwyr ynghyd o'r cyfundebau ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Y Cyngor mewn gwirionedd yw pwyllgor gwaith yr Undeb. Hwn yw ein melin drafod lle mae syniadau, cynlluniau, awgrymiadau a gweledigaeth yn cael eu gwyntyllu a'u datblygu ar gyfer ein tystiolaeth fel eglwysi annibynnol. Edrychwn ymlaen at weld beth fydd y bwriadau ar gyfer y cyfnod heriol sydd o'n blaenau. Yn sicr, bydd rhaid inni fentro mewn ffydd gyda'r newyddion da yn Iesu Grist.

Yr oedd y cyfarfodydd yn arbennig oherwydd bod dwy wedi cymryd at y llyw am y tro cyntaf sef Elinor Wyn Reynolds, yr Ysgrifennydd Cyffredinol a Jean Lewis, cadeirydd newydd y Cyngor. Pob dymuniad da i'r ddwy ohonynt yn eu gwaith. Yr wythnos nesaf bydd adroddiadau am y trafodaethau fu ym mhedair adran y Cyngor sef Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang, Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth, Adran Tystiolaeth ac Adran Dinasyddiaeth.






# Oedfa o fawl ar yr Alltwen – parhad

gerdded' Elfed ac yna emyn gobeithiol 'Bydd yn wrol, paid â llithro' Ben Davies, Pant-teg. Mae gan Gwenan gysylltiad teuluol â'r cerddor Dr Caradoc Roberts a chawsom flas ar emyn Elfed ar y dôn Stella.

> "Yn dawel nos ymdaena, dros fryniau Galilea
> a'r glas aflonydd lyn, a'r Iesu'n dringo weithian
> Yn araf wrtho'i hunan i borth y nef ar ben y bryn".

Diddorol oedd deall mai enw merch y cerddor o Rosllannerchrugog oedd Stella.

### Rhyfel yr Oen

Canllaw i'r Cristion, bid siŵr, yw cyfieithiad hyfryd y Prifardd John Gwilym Jones 'Mesur Dyn' o gerdd wreiddiol 'The measure of man'. 'Pan gaiff dyn ei fesur, gofynnir gan Dduw, nid sut y gwnaeth farw, ond sut y gwnaeth fyw'. Canwyd ar y dôn 'Alarch'. Coffawyd Meleri Mair yn y datganiad o un o ganeuon hyfryd Y Diliau o'r 60au, 'Gall dwy law': geiriau syml ac effeithiol sydd mor berthnasol i'n cyfnod erchyll o ryfela heddiw. Rhaid oedd cynnwys emyn Ann Griffiths 'Er mai cwbl groes i natur yw fy llwybr yn y byd' sy'n gyfarwydd i Gôr yr Heli o dan arweiniad Gwenan. Cydganwyd emyn Eifion Wyn 'Efengyl tangnefedd o rhed dros y byd' gan bwysleisio '.... na chariad at ryfel ond rhyfel yr Oen'.

### Cân y clo

Daeth yr oedfa gofiadwy i'w therfyn gydag emyn Gwyrosydd 'Calon lân' ar y dôn 'Deio bach', sy'n ffefryn i Gymry alltud Patagonia. Bydd Gwenan yn teithio yno, ym mis Tachwedd eleni, yng nghwmni gweddill Pedair ac mae'n siŵr y cânt eu cyfareddu gan ei llais unigryw a'i dawn ar y tannau a'i chyflwyno hynaws a diymhongar. Diolchwyd iddi am ei hymweliad gan y Parchg Rhys Locke ac i D. Huw Rees am ei gyfeilio meistrolgar ar organ soniarus yr Alltwen. Bu cymdeithasu a thrafod brwd yn y festri wedi'r oedfa, a llawn oedd y byrddau gan ddanteithion blasus gwragedd hawddgar yr Alltwen, a diolch iddynt hwythau am eu croeso.

**Gareth Richards**

**Ysgrifennydd Cyfundeb Gorllewin Morgannwg**

# Diolch am lawer mwy na'r cynhaeaf

Mae'n cyrddau diolchgarwch ni yn adleisio gŵyl Iddewig y Sukkot a nodir yn Exodus 34:22, ac sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd, Hydref 5-16. Ar sail hynny, ac arferiad eglwysig o Oes Victoria, yr ydym yn diolch am y cynhaeaf blynyddol. Digon teg. Ond ni wnaeth Iesu Grist erioed orchymyn i'w ddilynwyr ddiolch am y cynhaeaf. Fel pobl y Testament Newydd, nid rhywbeth tymhorol yw ein diolch ni. 'Ymhob peth fyddwch ddiolchgar' meddai Paul (1 Thes 5:18). Oni ddylem ddiolch yn dawel i Dduw am ddarparu bwyd i ni bob tro yr ydym yn cerdded mewn i siop neu archfarchnad i'w brynu, a chyn ei fwyta?

### Oes gynyddol gysurus

Mae gan bobol cafodd eu geni yng Nghymru ers diwedd yr Ail Ryfel Byd cymaint arall i ddiolch amdano. Dewch i fi siarad o brofiad, fel un a welodd olau dydd am y tro cyntaf ym 1954. Doedd dim dŵr o'r tap gyda ni yn ein tyddyn 12-erw ar fryn pum milltir i'r gogledd o dre Caerfyrddin. Un o'r atgofion cyntaf sydd gennyf oedd gweld mam yn cario dau lond bwced o ddŵr o'r pwmp oedd ar y *winch* yng ngwaelod y cae islaw'r tŷ. Roedd yn rhaid pwmpio'r dŵr a'i gario at ddefnydd y teulu, tair buwch a'r llo bach. Roeddwn yn chwe blwydd oed cyn i ni gael dŵr o'r tap. Cyn hynny, shincen oedd y bath, a thŷ bach twt ymhen draw'r ardd oedd – wel, y tŷ bach!



### Oes drydanol

Yn 1963 daeth trydan i'n tŷ ni. Cyn hynny, *tilly lamps* yn llosgi paraffin oedd yn goleuo ein tywyllwch, a thân glo yn lle gwres canolog. Doedd dim teledu, felly radio oedd yr unig gyswllt rhyngom â'r byd mawr tu allan. Ac o ran adloniant, roedd yn rhaid weindio gramaffon i wrando ar recordiau Jac a Wil, Richie Thomas a *superstars* eraill y cyfnod. Mewn argyfwng, cyn y daeth ciosg coch cyfagos, roedd y ffôn agosaf mewn tŷ chwarter milltir i ffwrdd. Erbyn heddiw, does ond rhaid ymestyn i boced neu fag llaw.

### Datblygiadau amaethyddol

Ffyrgi fach lwyd oedd ein tractor ni, heb unrhyw gysgod rhag y gwynt a'r glaw. Mor wahanol i'r tractorau cyfoes gyda'u cabiau clud, eu seddau cysurus, radio ac *aircon*! Clywais hanes am un tyddynwr, o gyfnod fy nhad-cu, oedd yn aredig ei gae bychan gyda *breast plough* – sef rhywbeth tebyg i raw fawr, gyda darn o bren ar draws y fron i'w gwthio hi i droi'r dywarchen. Does dim rhyfedd iddo gael ei glywed yn canu'n uchel ei hoff emyn tra roedd wrth y gwaith hynod lafurus yna: 'Beth sydd imi yn y byd? Gorthrymderau mawr o hyd!'

### Awyrennau

Mae'r holl ddatblygiadau ym myd technoleg, meddygaeth ac yn y blaen yn llawer rhy hir i'w rhestri. Ond un o'r datblygiadau sydd wedi newid y byd yn fwy na bron dim arall ers canfod yr olwyn yw'r awyren. Cafodd y byd i gyd ei agor lan i ni. Roedd chwaer tad-cu, sef Esther Lewis (Anti Het i fi) wedi bod yn genhades yn Karimganj yn India ac yn Sylhet, sydd yn Bangladesh bellach, yn ystod hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Roedd y daith dros y môr yn 1925 wedi cymryd 40 diwrnod. Heddiw, mae modd hedfan o Heathrow i'r maes awyr rhyngwladol yn Sylhet mewn llai na 10 awr! Mae'n siŵr y byddai Anti Het, a fu farw yn 1958, yn meddwl bod y peth yn wyrthiol.



### Yn lle cwyno – diolchwn!

Ond faint sy'n diolch i Dduw am y gwyrthiau modern hyn? Llai a llai. Faint sy'n gwerthfawrogi cael byw mewn oes mor gysurus? Pam bod cymaint o achwyn am hyn a'r llall, am bethau digon dibwys, fel ambell dwll yn yr heol, pan allem ni fod yn byw yn rhywle fel Gaza neu Wcráin? Er gwaetha'r stormydd personol sy'n dal i ddod i'n bywydau ni – stormydd salwch a cholledigaeth – oni ddylem ni ddiolch am gael byw mewn gwlad o heddwch a digonedd fel Cymru? Onid oes lle gennym i ddiolch am lawer mwy na'r cynhaeaf yr hydref hwn eto?

**Alun Lenny**

Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 16 2025 RHIF 242

# O Ganada ac o Ghana – croeso i Gymru




Bob blwyddyn bydd criw o weinidogion ac offeiriaid yn cyrraedd Cymru o nifer o wledydd gwahanol i ddechrau ar eu gwaith fel arweinwyr eglwysig mewn plwyfi a gofalaethau. Ac ers rhai blynyddoedd mae Cytûn wedi bod yn paratoi cwrs ar eu cyfer, sef Croeso i Gymru, a hynny dros dridiau yng Nghaerdydd, i'w cyflwyno i wahanol agweddau ar fywyd a diwylliant Cymru.

Eleni cynhaliwyd y gynhadledd yng nghanolfan Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, gyda 12 person yn cynrychioli gwahanol enwadau a thraddodiadau'n ei mynychu. Roedd yna weinidog o Ganada, offeiriaid o Ghana, o Iwerddon ac o'r Eidal, arweinydd o Rwmania, ac wrth gwrs nifer o Loegr. Roeddent i gyd newydd ddechrau mewn gofalaethau newydd: yng Nghaergybi, Bangor, Abergele, Glannau Dyfrdwy, Aberystwyth, y Fenni, Penfro a Chaerdydd.

Pwrpas y tridiau hyn oedd cyflwyno agweddau sy'n unigryw i Gymru iddynt, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r iaith wrth gwrs. Trefnwyd y cyfan gan Sasha Perriam ar ran Cytûn, a diolchwn iddi am ei threfniadaeth fanwl a gofalus. Cafwyd croeso a chyflwyniad agoriadol gan Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, er mwyn gosod y cyd-destun Cymreig. Yn ogystal â hynny, cafwyd cyflwyniad i ddeunyddiau addoli dwyieithog ac i waith tystiolaeth Cytûn gen i, a chyflwyniad i waith Cymorth Cristnogol gan Mari McNeill a Jenny Weaver. Wedi'r cyflwyniadau, fe gafwyd dwy awr o wersi Cymraeg gan Sian, cyn cyfle i ymlacio dros swper ym mwyty Eidalaidd Elgano. Wedi'r swper, roedd Ynyr Roberts yn disgwyl amdanom, a chafwyd detholiad hyfryd o ganeuon ganddo, gan gynnwys y gân eiconig 'Haleliwia'!

Ar yr ail fore, taith fws oedd yn ein disgwyl – i Sain Ffagan, lle cawsom ein tywys o gwmpas gan yr hanesydd Dr Elin Jones, cyn mynd ymlaen i'r Senedd, lle roedd Peredur Griffiths AS yn disgwyl amdanom. Cawsom sgwrs ar weithdrefnau'r Senedd, yn ogystal â chyfle i gael cip ar Feibl William Morgan, sy'n cael ei arddangos yno ar hyn o bryd. Wedi dychwelyd i'r Ganolfan, cafwyd sesiwn pellach dan ofal Iestyn Davies, swyddog polisi Cytûn, a braf oedd gweld pawb yn ymddiddori ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Ar y diwrnod olaf cafwyd cyflwyniadau ar 'Ffydd yn y Bae' ac agweddau rhyng-ffydd, dan arweiniad Dean, Kate a Radhika. Gobeithiwn bydd y tridiau hyn yn helpu'r 12 ohonynt i gartrefu'n dda yn ein plith, ac iddynt deimlo ein croeso cynnes.


Byddwn yn annog unrhyw weinidog neu weithiwr sy'n symud i Gymru i gofrestru ar gyfer 2026, gan annog yr enwadau'n ganolog i hysbysebu a hyrwyddo'r cwrs arbennig hwn. Byddai Sasha yn falch o glywed am rai fyddai â diddordeb mewn ymuno – y dyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf yw 23–5 Medi, eto yng Nghaerdydd.

*Aled Davies*



## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

### Maes Llafur i oedolion 2025/26




O'r wythnos hon ymlaen byddwn yn dechrau ar gyfres o astudiaethau'n seiliedig ar gymeriadau allan o'r gyfrol *Codi'r Llen*, sy'n ein tywys ar daith 40 sesiwn, yn edrych ar rai o ferched arwrol yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y gyfrol, sy'n gyfieithiad o *Unveiled,* yn 2023, ac mae'n dda cael cyfle i'w ddefnyddio fel sail i'n hastudiaethau dros y flwyddyn nesaf. Yn ychwanegol at y gyfrol ei hun, bydd myfyrdod a chyfres o gwestiynau hefyd yn ymddangos yn wythnosol yn *Cenn@d* a'r *Tyst*, i'n cyfeirio ar hyd y daith. Sian Meinir o Benarth fydd yn gyfrifol am y rhain, a chawn fyfyrdod wythnosol ganddi ar ffurf monolog, yn ein cyflwyno i'r cymeriad, cyn troi at y bennod yn y gyfrol, ac yna cloi gyda chwestiynau a gweddi wedi eu paratoi gan Sian.

Mae rhai o ferched yr ysgrythurau Hebraeg yn adnabyddus, ond prin fod llawer o'r lleill yn cael eu cofio. Hyd yn oed pan maent, nid ydym yn oedi'n ddigon hir i feddwl beth y gallwn ei ddysgu ganddynt. Mae *Codi'r Llen*, sydd wedi'i ysgrifennu gyda didwylledd a hiwmor ac wedi'i ddarlunio gan waith celf trawiadol artist ifanc o Rydychen, yn archwilio storïau 40 o ferched mewn 40 o ddyddiau. Gorffennir pob myfyrdod drwy ei gymhwyso'n fyr i fywyd bob dydd, arweiniad i'w ystyried ymhellach a gweddi. Cyhoeddwyd y llyfr yn Gymraeg fel prosiect gyda chriw'r Tabernacl, Caerdydd, gyda Ruth Davies yn llywio'r prosiect ac yn gweithredu fel golygydd. Mae'r llyfr ar gael o'ch siop Gymraeg leol neu mae modd prynu copi digidol (pdf) ar lein o Maes Llafur Ysgol Sul i Oedolion - Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru.

**Ymson Efa**

Cofiaf, wrth sefyll o flaen y goeden, imi weld y ffrwyth a theimlo pwysau tragwyddoldeb ar f'ysgwyddau. Yn y foment honno, tawelodd yr ardd o'm cwmpas – sibrydai'r dail yn betrus, arafodd byrlymau'r ffrwd, a daeth trydar yr adar bach i ben. Daliodd y bydysawd ei wynt, a disgwyl. Roedd dail y goeden yn sgleinio yn yr haul a'r ffrwyth yn fy ngwahodd i ymestyn ato. Dychmygais y blas – yn fêl o felys a'r sudd fel neithdar. Clywais lais Adda'n atseinio yn fy nghlust, ond allwn i ddim tynnu fy sylw oddi ar ffrwyth y goeden.

Roedd popeth mor berffaith yma a ninnau mor hapus. Ond nawr, roedd rhyw flys yn codi yn fy mherfedd ac yn dringo hyd fy nghalon, a fedrwn i mo'i anwybyddu. Beth oedd pwrpas y dyhead hwn, os na allwn ei ddiwallu? Amhosib oedd peidio anwesu'r cyffro hwn y tu mewn imi. Sut deimlad fyddai meddiannu'r blas a chael gwybod y cyfan? Sut beth fyddai cael gweld drwy lygaid Duw ei hun? Oeddwn i wir eisiau codi llen fy niniweidrwydd?

Yna, daeth y llais, gan droelli'n gyfrwys o dyner, "Fyddwch chi ddim yn marw."

Estynnais yn araf am y ffrwyth, a'm bysedd yn crynu, nid o ofn ond o ryfeddod. Teimlais ei sawr ac ogleuo'i lyfnder. Un brathiad ac roedd yn fwy amheuthun na dim roeddwn wedi'i flasu o'r blaen. Rhedodd yr hylif drwy fy ngwythiennau. Yna daeth y surni, yn flas newydd a chwerw ar fy nhafod. Cymerais frathiad arall, ac yna un arall. Yn araf dechreuodd yr ardd symud o'm cwmpas, fel set theatr yn newid golygfa. Pylodd y golau, daeth y cysgodion i lenwi'r corneli, ac am y tro cyntaf erioed gwelais y tywyllwch.

Llechai Adda yn y gornel, yn fy ngwylio, a dieithrwch yn ei wedd fel pe na bai'n f'adnabod. Yna gwelais myfi fy hun ym mhwll y ffynnon – yn brydferth ond yn amherffaith. Cyn heddiw roedd nodweddion fy wyneb yn gytbwys, ond nawr roedd un llygad ychydig yn is na'r llall, a gwelais grychau lle bu'r croen fel melfed. Roedd hyn fel rhyw fath o ddeffroad; ro'n i'n rhydd ond eto wedi fy nghaethiwo yr un pryd. Fe gefais ddewis, a nawr roedd popeth wedi newid. Edrychais tua'r nefoedd i chwilio am wyneb Duw, a'r unig beth a welwn oedd pellter.

Fe fyddant, ymhen canrifoedd, yn ei alw'n bechod. Fe fyddant yn fy meio, yn fy mychanu ac yn edliw fy modolaeth. Efa, y ferch a gymerodd risg er mwyn cael gweld y da a'r drwg. Do, cefais brofi beth yw byw yn ei gyfanrwydd. O hyn allan, daw poen i flino fy nyddiau a bydd crafangau hiraeth am yr hyn a fu ar fy nghefn. Ond, er pob ofn, ceisiaf ganfod y rhyfeddodau yn fy nyddiau. Dyheaf am weld cariad yn egino ar bridd sych, ac fe gydiaf wrth y gobaith sy'n parhau. Ni allaf gondemnïo'r ffrwyth. Ynddo a thrwyddo fe ddeuthum yn berson cyflawn – yn gymysg oll i gyd. Er i Ti ein herlid o'r ardd ac i'r glwyd gau y tu ôl inni, fe gerddaf ymlaen yn ffyddiog. Byddaf yn dyheu amdanat Ti ynghanol dwndwr y byd, yn chwilio amdanat yn y mawredd mawr. Oherwydd, hyd yn oed yn ein halltudiaeth, rydym i gyd wedi ein creu ar dy lun a'th ddelw Di.

**Holi**

- Sut ydych chi'n teimlo'n tuag at Efa? Ydych chi'n tosturio wrthi, neu'n ei beirniadu a'i beio?
- Ydych chi wedi cael profiad o gael eich gwahanu oddi wrth Dduw? Ai dyma beth yw pechod, yn eich barn chi?
- Ydy'r gwahanu hwnnw wedi golygu rhyw fath o adnewyddiad yn eich perthynas chi â Duw?
- Fe deimlodd Iesu Grist y bwlch rhyngddo a'i Dad yng ngardd Gethsemane, ond dewisodd dderbyn y cynllun ar ei gyfer. Ydych chi'n ymwybodol o gynllun Duw ar eich cyfer chithau?
- Beth sydd gan Efa i'w ddweud wrthym ni heddiw?

**Gweddi**

Rho inni, O Dduw, yr awyddfryd i agor ein clustiau i glywed dy eiriau. Cyfeiria ein golygon i weld bod y stori'n berthnasol i'n bywyd ni. Planna ynom eiddgarwch i ddeall ystyr dy neges ac i sylweddoli bod sgileffeithiau i'r dewisiadau a wnawn. Cyfarwydda ein camre ar hyd llwybr doethineb a gwared ni rhag ein camgymeriadau ffôl. Boed inni ystyried eraill yn ein penderfyniadau, a gwna ni'n gytbwys yn ein hymwneud a'n dweud bob amser. Amen.

S4C

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 19 Hydref, am 7.30yh – Y Cynhaeaf**

Bydd Lisa Gwilym yn ymweld â chefn gwlad sir Drefaldwyn i ddathlu tymor y cynhaeaf. Cawn gwrdd â'r ffermwr ifanc Lloyd Davies o'r gyfres deledu *Our Dream Farm* a dysgu am fenter gymunedol flaengar i leihau gwastraff bwyd. Daw'r canu mawl o Gapel y Tabernacl, Llanfyllin.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***

**Sul, 19 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Anna Jane Evans

***Oedfa Radio Cymru***

**Sul, 19 Hydref, am 12:00yp**


Oedfa dan ofal Elinor Wyn Reynolds

# Dathlu cyfraniad ein nofelydd mwyaf poblogaidd – a rhan olaf dyddiadur dadlennol ‘Prifathro wrth ei Ewyllys’

Bywyd, gwaith a chyfraniad Islwyn Ffowc Elis, nofelydd mwyaf poblogaidd Cymru’r ugeinfed ganrif ac enillydd gwobr Llyfr y Ganrif, sef *Cysgod y Cryman*, yw testun prif erthygl rhifyn Hydref o’r *Traethodydd*. Perthynas i Islwyn, sef Rheinallt Llwyd, yw’r awdur, ac mae’r erthygl yn seiliedig ar ddarlith gyhoeddus a enynnodd gryn ddiddordeb pan draddodwyd hi mewn mwy nag un cylch ddiwedd y llynedd a dechrau’r flwyddyn hon.

Dathlu canmlwyddiant geni Islwyn oedd y nod, ac mae’n mynd â ni o’i fagwraeth yn Nantyr, Dyffryn Ceiriog, yn nauddegau’r ganrif ddiwethaf, heibio i’w addysg yn ysgol y pentref, yr ysgol uwchradd yn Llangollen, Coleg y Brifysgol ym Mangor a’r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth a Choleg y Bala wedyn. Ym Mangor yn niwedd y tridegau a dechrau’r pedwardegau y gwnaeth enw i’w hun fel awdur, dramodydd a lluniwr sgriptiau difyr, yn un o’r to hynod ddawnus a chreadigol oedd yno ar y pryd, criw oedd yn cynnwys Merêd, Dr Meredydd Evans, ‘Triawd y Coleg’, a phobl ddisglair eraill.

Ceir sôn am ei flynyddoedd rhwystredig fel gweinidog, ym Maldwyn ac yna ym Môn, er mai o’r rhwystredigaeth hon y tarddodd y ddwy nofel a weddnewidiodd hanes y nofel Gymraeg, sef *Cysgod y Cryman* ac *Yn ôl i Leifior*. Mae’n olrhain ei hanes wedi hynny, fel awdur ar ei liwt ei hun, y cyntaf i geisio gwneud bywoliaeth o lenydda yn Gymraeg, yn ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, yn gyfarwyddwr cyhoeddi gyda’r Cyngor Llyfrau, yn awdur ar ei liwt ei hun eilwaith, ond yn Wrecsam y tro hwn, a’i swydd broffesiynol olaf fel uwch-ddarlithydd mawr ei ddylanwad yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Llwybr igam-ogam a gymerodd, ys dywed Rheinallt Llwyd, gan wynebu mwy nag un rhwystr ar y ffordd. Caiff y cwbl ei osod allan yn ddeheuig iawn yma, gyda thoreth o luniau difyr i nodi’r gwahanol gamau. Gwych o beth yw




medru dathlu camp awdur mor bwysig a personoliaeth hoffus dros ben.

Yn ail ran ei ysgrif ‘Cymdeithas, Bro ac Adferiad’, mae Eurwyn Wiliam yn parhau â’i ddadansoddiad o gyfraniad y diweddar Trefor M. Owen i astudiaethau gwerin Cymru. Canolbwyntio ar ddadansoddiad blaengar y gwrthrych o natur yr economi gwledig a wneir y tro hwn, ynghyd ag arferion llên gwerin ac ethnoleg ranbarthol. Mae’r paragraff clo yn crynhoi cyfraniad gŵr eithriadol fonheddig a diymhongar, ‘yr unig ysgolhaig Cymreig i edrych ar sawl agwedd bwysig o’n hanes fel pobl’.

Wrth werthfawrogi gwaith holl awduron y cylchgrawn ar hyd y flwyddyn, yr un cyfraniad sydd wedi tynnu’r sylw ehangaf yw ‘Dyddlyfr Prifathro wrth ei Ewyllys’, sef atgofion hynod fywiog a gafaelgar Derec Llwyd Morgan o’i gyfnod yn llywio Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn negawd olaf yr hen ganrif ac i mewn i’r ganrif hon. Cafwyd tair ysgrif hyd at y rhifyn diwethaf, a dyma ni’n cyrraedd y bedwaredd a’r olaf, sy’n mynd â’r stori hyd at ei ymddeoliad yn 2004. Ni chaiff neb sydd wedi darllen yr ysgrifau eraill ei siomi y tro hwn. Mae’n dadlennu llawer nid yn unig amdano’i hun fel gweinyddwr, ffigur cyhoeddus a gŵr i Jane, tad i Elin a thad-cu i Joel, ond mae’n darlunio rhai o symudiadau pwysicaf bywyd politicaidd ac academaidd y Gymru sydd i’w gweld, ysywaeth, ymhell yn ôl erbyn hyn. Ond diolch, Derec, am roi i ni gyfres mor ddifyr-ddadlennol a gaiff ei hystyried maes o law yn ddogfen hanesyddol o bwys.

Beirdd y rhifyn hwn yw Robert Lacey ac Aled Jones Williams, a’n hadolygydd yw Dafydd Johnston sy’n tafoli cyfrol ddiweddar hynod ddeniadol, sef *Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010–2024*, sylwedd darlithoedd gan amryw byd o’n beirniaid, Rowan Williams ac M. Wynn Thomas yn eu plith. Os bardd mwyaf yr ugeinfed ganrif oedd Waldo, fel y myn rhai, ceir yma ddathliad teilwng o’i athrylith.

Yn ôl ein harfer, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i’w brynu a’i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw’r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

**Rydym yn hapus iawn i gynnwys hysbysiadau am ddigwyddiadau, ond gwnewch yn siŵr fod o leiaf pythefnos o rybudd cyn dyddiad eich digwyddiad er mwyn rhoi digon o amser i ni ei gynnwys ac i bobl wneud eu cynlluniau ymlaen llaw.**

*Gol.*

# Cristnogaeth v Cristnogyddiaeth

Deuthum ar draws gair dieithr i mi y dydd o'r blaen, neu o leiaf air yr oedd ystyr newydd wedi ei roi iddo. Y gair oedd 'Christianism' – 'Cristnogyddiaeth'.

Yn ôl un geiriadur ar y we, ei ystyr gwreiddiol oedd 'y casgliad o gredoau ac arferion, a'r diwylliant sy'n deillio o ffydd yn Iesu Grist, sy'n cwmpasu nid yn unig yr argyhoeddiadau ysbrydol ond hefyd y ddiwinyddiaeth, y traddodiadau a bywyd cymunedol Cristnogion.' Popeth yn iawn. Nid oes dim i'n tramgwyddo yn y diffiniad yna. Ond ystyr arall a welais i yn cael ei roi i'r gair. Cafodd y diffiniad ei ymestyn; yr oedd fel petai ychwaneg o eiriau wedi eu hychwanegu ar ei ddiwedd.

## Cristnogaeth orfodol

Bellach, yr ystyr newydd oedd, 'y casgliad o gredoau ac arferion, a'r diwylliant sy'n deillio o ffydd yn Iesu Grist, sy'n cwmpasu nid yn unig yr argyhoeddiadau ysbrydol ond hefyd y ddiwinyddiaeth, y traddodiadau a bywyd cymunedol Cristnogion, ac sydd i'w derbyn gan bawb arall hefyd.' Gydag ychwanegu dim ond yr ychydig eiriau hynny, trodd diffiniad cwbl dderbyniol i fod yn arf i'w ddefnyddio yn erbyn eraill, yn fwyaf penodol yn erbyn mewnfudwyr, ffoaduriaid ac ymgeiswyr lloches. A dyma sut y gwelsom groesau yn cael eu cario mewn protestiadau yn erbyn mewnfudwyr yn ddiweddar, a phobl yn cario posteri oedd yn dweud, 'Gwlad Gristnogol yw hon'. Daeth y ffydd i gael ei defnyddio fel arf mewn brwydr.



## Dryswch

Yn naturiol, arweiniodd hyn at ddryswch. Yr oedd yn anodd gwrthwynebu a dadlau yn erbyn  rhai oedd yn defnyddio enw Iesu Grist ac yn dweud eu bod yn gweithredu ar sail eu ffydd i amddiffyn yr hyn sydd hefyd yn werthfawr yn ein golwg ninnau, sef ein hunaniaeth Gristnogol. Onid oes ganddynt bwynt, tybed, a hwnnw'n ennyn cydymdeimlad ynom tuag at eu safbwynt?

## Camddefnydd

Dealler hyn, nid yw defnyddio enw Iesu Grist na dweud ein bod yn amddiffyn ein diwylliant Cristnogol byth yn cyfreithloni defnyddio'n ffydd fel arf neu wrthglawdd yn erbyn rhai sy'n ceisio lloches. Fel y dywedodd Iesu ei hun, 'Nid pawb sy'n dweud wrthyf, "Arglwydd, Arglwydd", fydd yn mynd i mewn i deyrnas nefoedd, ond y sawl sy'n gwneud ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd'. (BCN, Mathew 7:21). Mae'n bosibl defnyddio'r geiriau, defnyddio'r termau, defnyddio'r adnodau, ymddangos a swnio'n Gristnogol heb fod yn Gristnogol o gwbl. A hynny yr ydym wedi bod yn ei weld a'i glywed yn ddiweddar yma yn ynysoedd Prydain ac yn yr Unol Daleithiau.

Cofier y darn hwnnw o ddysgeidiaeth Iesu pryd mae'r dychweledigion yn gofyn i'r Brenin yn y ddameg am Ddydd y Farn:

> 'Arglwydd, pryd y'th welsom di'n newynog a'th borthi, neu'n sychedig a rhoi diod iti? A phryd y'th welsom di'n ddieithr a'th gymryd i'n cartref, neu'n noeth a rhoi dillad amdanat? Pryd y'th welsom di'n glaf neu yng ngharchar ac ymweld â thi?'
>
> A bydd y Brenin yn eu hateb, 'Yn wir, 'rwy'n dweud wrthych, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch.' (BCN, Mathew 25:37-40)

## Troi cefn

Os byddwn yn cael ein temtio i gofleidio'r diffiniad 'newydd' o Gristnogyddiaeth, boed i ni ddeall yn awr y bydd yn golygu y byddwn yn gorfod troi ein cefnau ar Gristnogaeth Feiblaidd. Geiriau Iesu Grist sydd i lywio ein meddyliau a'n hagweddau; fel y dywedodd yr Apostol Paul, 'y mae meddwl Crist gennym ni'. (BCN, 1 Corinthiaid 2:16) Oherwydd hynny, y gwynfydau a'r gorchmynion i garu ein cymydog, ein gelyn a Duw sydd i fod flaenaf yn ein blaenoriaethau wrth ymateb i bob sefyllfa.

Ydi, mae hon yn sialens, ond na foed i ni gilio oddi wrthi. Cristnogaeth Iesu Grist neu Gristnogyddiaeth synthetig, dyna'r dewis. A dim ond un ohonynt sy'n adlewyrchu gras ac yn arwain at drugaredd a thosturi, tair o'r nodweddion amlycaf a phwysicaf yng nghymeriad a gweinidogaeth ein Harglwydd a'n Gwaredwr.

**Geraint Tudur, Bangor**

# Myfyrdod AirPod 2



Yn ddiweddar roeddwn yn gwylio fideo o berson yn fforio ar draeth yn Rio de Janeiro. Ar derfyn min nos roedd yn cribinio'r tywod wrth chwilio am drysorau roedd pobl wedi eu colli yn ystod y dydd. Roedd yn ffeindio pob math o bethau ac yn eu plith roedd Apple AirPod. Un o'r pethau hynny y mae pobl yn eu rhoi yn eu clustiau i wrando ar gerddoriaeth.


Yr hyn sy'n handi gyda'r teclynnau hyn yw bod cas bychan gwyn i'w cadw ac ynddo y mae lle pwrpasol ar eu cyfer. Mae'r newyddion da Cristnogol yn ein gwahodd i ddod at Dduw. Mae yna ofod wedi ei deilwra ar ein cyfer ym mynwes Duw. Mae'r Iesu yn gwahodd pobl o bob lliw a llun ato gan ddweud, 'Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi'. (Mathew 11:28) Ac mae'r gwahoddiad llawn cysur hwn i bob un. 'Da chi'n gweld, mae lle pwrpasol i bob un gyda Duw. Mae yna ddyfyniad enwog gan Awstin Sant sy'n dweud 'Diorffwys ydwyf hyd oni orffwysaf ynot ti.' Yr unig le 'da ni'n ffitio, yr unig le y gallwn gyrraedd adra gan ffeindio gorffwys go iawn yw gyda Duw. Ef yw ein cartref. Yr amod yn syml yw credu yn Iesu ac yn yr hyn a gyflawnodd, gan fod yn ddisgybl gydol oes iddo. 'Fi ydy'r ffordd,' atebodd Iesu, 'yr un gwir a'r bywyd. Does neb yn gallu dod i berthynas gyda Duw y Tad ond trwof fi.' (Ioan 14:6. Beibl.net)

Mae bod yn aelod o deulu Duw yn fendith aruthrol, bendith yw nad ydym yn ei gwerthfawrogi hanner digon. Bendith o fod yn ffitio, o fod yn aelod o gorff Crist.

Tyrd i mewn mae'r bugail da yn galw arnat.

# Golygyddol

## Gwasgarodd y rhai balch eu calon




Rydw i newydd ddechrau darllen cofiant Aled Eirug i Dafydd Elis Thomas. Wedi'i ysgrifennu'n Saesneg mae'r cofiant, ac y mae'n edrych i mi'n un diddorol a dadlennol. Yn y rhan gyntaf un mae Aled yn olrhain cefndir teuluol Dafydd, a chystal i mi gyfaddef bod rhan o'r bennod gyntaf yn ddigon cignoeth.



### Teulu'r Mans

Plant y Mans oedd Dafydd Elis ac Elin Mair, a'r tad, y Parchg W. E. Thomas yn weinidog pur amlwg efo Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Daeth i Lanrwst yn 1946 yn weinidog ar Seion, un o eglwysi cryfa'r Presbyteriaid yn ei dydd. Clamp o adeilad hardd – trawiadol o hardd a dweud y gwir – gydag un o'r organau pib gorau yng Nghymru. Mae gen i fymryn o hawl i ddweud hynny gan mai yno y treuliais i sawl awr yn ymarfer trwy garedigrwydd Arthur Vaughan Williams, organydd cyflogedig yr eglwys rhwng 1947 ac 1990. Hyd yn oed yn niwedd saithdegau'r ganrif ddiwethaf, roedd cael mynediad i Seion i ymarfer yn gamp, nid oherwydd ystyfnigrwydd Arthur Vaughan, ond oherwydd rheolau caeth Pwyllgor yr Organ, a'r blaenoriaid a oedd yn llywodraethu'r pwyllgor hwnnw! Prysuraf i ychwanegu erbyn hyn bod Seion a'i rheolau wedi newid yn llwyr yn ei holl agwedd, a byddaf yn arwain gwasanaethau yno'n flynyddol bron, a chael croeso mawr.

Ond roedd Seion y gorffennol yn dra gwahanol, cyn ac yn ystod cyfnod gweinidogaeth W. E. Thomas (1946-1968), er ei fod ef ei hun y rhadlonaf o blant dynion o gefndir chwarelyddol ym Mlaenau Ffestiniog. Dyma ddisgrifiad Aled Eirug o Seion yn y cyfnod hwnnw: 'Seion chapel represented the established middle class of the town, and was considered a cut above the other chapels in the Conwy Valley, certainly in regard of the chapel deacons. They were mostly middle-class professionals and conservative, often freemasons, and included members of the town's older families'.

Disgrifiad cry', ond disgrifiad fyddai'n addas i lawer eglwys o bob enwad yn hanes Anghydffurfiaeth yng Nghymru.

### Cwymp crefydd

O ddarllen ymlaen gwelir nad oedd yn Seion y cyfnod hwnnw fawr o le i'r 'bobl gyffredin' yn y gynulleidfa, er mai nhw fyddai'n gwneud y gwaith caib-a-rhaw, ac onid ydi hyn mewn sawl lle wedi cyfrannu at dranc ein heglwysi, ac yn waeth na hynny, wedi cyfrannu at ddiffyg diddordeb ein pobl mewn crefydd a Christnogaeth? A'r canlyniad, wrth gwrs, oedd bod ffurfioldeb a ffug-dduwioldeb wedi dod i ddechrau bwyta'r ysbryd byw, a'i gnoi'n ddarnau fel ci'n cael tegan yn ei geg. Yr oedd hyn hefyd yn rhoi gormod o bwyslais ar y cyfoethog yn sefyll ar y tlawd. 'Does dim ond angen darllen rhai o'r cyfrolau a ysgrifennwyd ar hanes Cymru yr ugeinfed ganrif i gadarnhau'r pwynt yma.

### Crefydd i'r tlawd yw un Iesu Grist

Byddaf bob amser yn cael fy nghyfareddu gan yr hanesion am Iesu Grist yn ymwneud efo'r diymgeledd, y difreintiedig, y cloff, y dall a'r byddar – y bobl hynny oedd yn 'neb' yn eu cyfnod. Ond mae 'na un peth sy'n fy nharo i weithiau sef nad ydyn ni'n sylweddoli ein bod ninnau'n dlawd. Mae tlodi'n golygu mwy na bod heb ddim o bethau'r byd hwn. 'Inferior in quality and insufficient in amount' meddai rhywun. 'Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd' meddai un o'r Gwynfydau gan Iesu Grist, a dyma sy'n digwydd pan mae rhywun yn gweld ei bechod: wrth inni sylweddoli ein bod **ni'n** dlawd yr ydyn ni'n cael ein cyfoethogi 'trwy ei dlodi ef' fel y dywedodd Paul (2 Corinthiaid 8-9). Os ydi Iesu Grist wedi gwneud ei hun yn dlawd, mae'r alwad ar i ninnau weld nad oes lle i'r snobyddlyd a'r uchel-ael honedig.

Efallai nad yw eglwysi Cymru heddiw mor gryf o ran rhif ag a oeddent yn y gorffennol, ond rwy'n go' siŵr bod y snobyddiaeth a'r 'edrych i lawr' ar eraill yn gryn dipyn llai. Edrychaf ymlaen at ddarllen gweddill y cofiant.

**Iwan Llewelyn**

# GOHEBIAETH

Annwyl Olygydd,

Diolch am gyhoeddi Ffug Farwnad Meirion yn rhifyn 18 Medi. Yn anffodus fe hepgorwyd un llinell yn y trydydd pennill sef 'a fydd gyneuydd i'w hegnïon' a ddylai fod o flaen y llinell 'yn oes y cesair'. Y mae'r llinell a hepgorwyd yn cydlynu â'r llinell 'a hoen awenydd'. Pwynt bychan hefyd, nid oes angen 'D' fawr ar ddechrau ail linell y pennill.

Gyda diolch.

**Colin Gwyn Jenkins,**
Ysgrifennydd Eglwys Jerusalem,
Porth Tywyn.

# Diwrnod y Gweinidogion

**Dydd Llun, 10 Tachwedd 2025**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**









**Amserlen**

| | |
|---|---|
| 10:00 | Te / Coffi a Defosiwn |
| 10:30 | Gair gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol |
| 10:45 | 'Dietrich Bonhoeffer: gweld y byd drwy lygaid ffydd' |
| 11:00 | 'Dod i adnabod Dietrich Bonhoeffer' – *Parchg Gwilym Tudur* |
| 12:00 | Trafodaeth ar ddyfyniadau Dietrich Bonhoeffer |
| 12:30 | Cinio |
| 13:15 | Arddangosfa 'Aduniad: Beiblau Mawr Harri'r VIII a Thomas Cromwell' |
| 14:30 | "Bydd Oedfa'r Sul nesaf dan ofal ChatGPT ac A.I.": Y defnydd o ChatGPT ac AI – *Parchg Dylan Rhys Parry* |
| 15:30 | Defosiwn i gloi'r diwrnod |
| 15:45 | Paned, cacen ac ymadael |

*Ym mlwyddyn cofio 80 mlynedd ers marwolaeth y gweinidog a'r diwinydd Dietrich Bonhoeffer, down i'w adnabod yn well, a deall ei ymateb i sefyllfaoedd ac amgylchiadau penodol yn ei ddydd, cyn ystyried ein hymateb ni i ddatblygiadau'r byd cyfoes.*




**Cofrestru**

Cofrestwch yn brydlon erbyn **dydd Gwener, 24 Hydref** os gwelwch yn dda.

**01792 795888**
**carwyn@annibynwyr.cymru**

*Darperir cinio i bawb.*
*Nodwch unrhyw anghenion dietegol wrth gofrestru.*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dwy gynulleidfa annibynnol yn uno i ddathlu pen-blwydd

Bu sawl eitem yn y Tyst yn ddiweddar am gapel Pen-y-groes, Sir Gaerfyrddin. Ond a wyddoch chi fod dwy eglwys Annibynnol yn y pentref, yn ogystal â phedair eglwys o enwadau eraill? Fel digwyddodd mewn sawl lle tua dwy ganrif yn ôl, buodd rhwyg ymhlith aelodau Pen-y-groes ynglŷn â'r dull o ledaenu'r efengyl. O ganlyniad aeth criw o'r ffyddloniaid i godi ail gapel Annibynnol y pen arall i'r pentref i lawr Heol Waterlŵ, o'r enw Mynydd Seion. Erbyn hyn, er yn gwrthod ailuno, mae'r ddwy gynulleidfa yn cydweld yn dda, yn rhannu gweinidog, ac yn rhannu Suliau yn aml.

Y rheswm dros sôn am Fynydd Seion nawr yw er mwyn ymestyn llongyfarchiadau i Sheila John o Flaenau; diacones yn y capel, sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed, gyda the parti mawr yn y festri. Mae'n dal i fod mewn iechyd da; yn dal i yrru ac yn dal i fod yn swyddog o sawl cymdeithas ym mhentrefi Blaenau a Phen-y-groes. Bu gynt yn athrawes yn Llandybïe, ac mae wedi teithio'r byd gyda'i diweddar ŵr Myrddin John, oedd yn godwr pwysau o fri a fu'n cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad, yn hyfforddwr rhyngwladol yn y gamp, ac yn is-lywydd Ffederasiwn Codi Pwysau'r Byd.

Dymunwn bob bendith i Sheila a diolch am ei blynyddoedd helaeth o wasanaethu Mynydd Seion.



*Edaina a Sheila John sy'n y llun gyda'r blodau*



*Sheila a'i chwaer Margaret*

# Sul Heddwch

Fore Sul, 21 Medi, cafwyd gwasanaeth teimladwy iawn gan griw o aelodau capel Hope Siloh. Roedd hi'n Ddiwrnod Rhyngwladol Heddwch y diwrnod hwnnw ac fel Cristnogion ni ellid anghofio am y bobl ar draws y byd sy'n dioddef o ganlyniad i ryfel. Dechreuwyd y cyflwyniad wrth gofio am y bom atomig erchyll hwnnw a darodd Hiroshima ym mis Awst 1945 ac yna'r ail un ddyddiau'n ddiweddarach yn taro Nagasaki. Cofiwyd yn arbennig hefyd am y rheiny ym Mhalestina a Wcráin sy'n parhau i ddioddef heddiw wrth i ryfel ddinistrio bywydau. Galwyd ar bob un ohonom i weithio tuag at heddwch ar draws y byd a thegwch i bawb. Diolch i Gwen ac Eric am baratoi'r criw o aelodau mor drylwyr unwaith eto.

**Heledd Clarke**




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*